

**Arolygiad Dilynol (Dirybudd)
Gwasanaeth Iechyd Meddwl
Ysbyty Brenhinol Morgannwg:
Ward Seren a'r Uned Gofal
Estynedig: Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf**

Dyddiad yr Arolygiad: 9 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Ebrill 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	4
2.	Methodoleg	5
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau.....	8
	Safonau Craidd.....	8
6.	Y Camau Nesaf.....	20
	Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitoro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- Yn ddiogel
- Yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- Yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- Yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

¹ Ddedfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Ar adeg ein harolygiad, roedd y gwasanaeth iechyd meddwl pobl hŷn yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnwys:

- Ward Seren – ward asesu iechyd meddwl organig – 12 gwely
- Uned Gofal Estynedig – uned saith gwely ar gyfer gofal estynedig
- Ward Dewi Sant – ward asesu iechyd meddwl gweithredol ac iddi ddeg gwely

Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar Ward Seren a'r Uned Gofal Estynedig.

4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad dilynol yn uned iechyd meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar draws dau o'r wardiau iechyd meddwl pobl hŷn, Ward Seren a'r Uned Gofal Estynedig.

Canfuom fod llawer o le i wella yn yr amgylchedd, lle roedd angen sicrwydd ar unwaith gan y bwrdd iechyd i ymgymryd â gwelliannau ar gyfer diogelwch cleifion, ymwelwyr ac aelodau staff.

Roeddem hefyd yn falch o nodi rhai gwelliannau a chanfyddiadau cadarnhaol ers ein harolygiad diwethaf ym mis Gorffennaf 2016.

Roedd y gwelliannau ers ein harolygiad blaenorol yn cynnwys:

- Cynnydd yn y lefelau staffio ar Ward Seren a'r Uned Gofal Estynedig
- Gwelliant o ran darpariaeth bwyd ar Ward Seren
- Gwelliant o ran yr wybodaeth i gleifion ac ymwelwyr sy'n cael ei harddangos ar y ward
- Gwelliant o ran y cyfleusterau ar gyfer storio meddyginiaeth yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y gwaith cynnal a chadw o'r amgylchedd
- Arwyddion a gwybodaeth i gleifion ac ymwelwyr
- Y gwaith o reoli meddyginiaethau
- Preifatrwydd i gleifion mewn ystafelloedd cysgu
- Cynnig dewis o ran y prydau bwyd.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Y tîm amlddisgyblaethol

Ers ein harolygiad diwethaf ym mis Gorffennaf 2016, roedd uwch nyrs newydd wedi cael ei phenodi ar gyfer y gwasanaeth iechyd meddwl pobl hŷn ers i'r unigolyn blaenorol adael. Roedd rheolwr ward newydd ar gyfer Ward Seren a'r Uned Gofal Estynedig wedi cael ei benodi hefyd, ac roedd y broses recriwtio wrthi'n cael ei chynnal i benodi rheolwr ward newydd ar gyfer Ward Dewi Sant, sef y ward iechyd meddwl pobl hŷn arall yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Siaradodd y ddau unigolyn newydd a benodwyd yn angerddol o ran yr angen i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein harolygiad blaenorol, gan ganolbwyntio'n uniongyrchol ar nifer o feysydd.

Y prif ddatblygiad ers ein harolygiad diwethaf oedd y gwaith ar sefydlu cynllun peilot ar gyfer y gwasanaeth. Byddai'r holl dderbyniadau ar gyfer y gwasanaeth iechyd meddwl pobl hŷn yn digwydd drwy'r Uned Gofal Estynedig. Byddai cleifion yn aros yn yr Uned Gofal Estynedig am o leiaf 72 awr er mwyn caniatáu i'r staff gynnal asesiadau a datblygu dogfennau cynlluniau gofal. Ar ôl 72 awr, byddai cleifion naill ai'n symud i Ward Seren neu'n parhau yn yr Uned Gofal Estynedig, yn dibynnu ar eu hanghenion gofal unigol.

Gwnaeth y staff ar y wardiau y buom yn siarad â nhw roi sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r cynllun peilot arfaethedig, er eu bod yn poeni am ragor o newidiadau eto.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan y gwasanaeth weledigaeth ar gyfer y cynllun peilot arfaethedig. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu darparu dogfennau strategol ynghylch y cynllun peilot a sut y bydd ei lwyddiant a'i anawsterau yn cael eu mesur, na sut y byddai'r peilot yn cyd-fynd â gweithrediad strategol cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer iechyd meddwl pobl hŷn gan y bwrdd iechyd.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu dogfen strategol a gwerthusiad ar gyfer y cynllun peilot arfaethedig.

Hefyd, bu newidiadau i'r ddarpariaeth ar Ward Seren ac yn yr Uned Gofal Estynedig. Roedd dwy ystafell wely ar Ward Seren, a oedd wedi'u lleoli drwy'r drysau cyfagos ar ochr yr Uned Gofal Estynedig, bellach yn cael eu hystyried

fel ystafelloedd gwely ar gyfer yr Uned Gofal Estynedig. Felly, roedd deuddeg gwely ar Ward Seren, ac roedd yn darparu gofal i gleifion gydag anghenion iechyd meddwl organig. Roedd deg gwely ar Ward Dewi Sant, ac roedd yn darparu gofal ar gyfer cleifion gydag anghenion iechyd meddwl gweithredol. Roedd saith gwely yn yr Uned Gofal Estynedig, ac roedd yn darparu gofal i gleifion sydd angen cymorth ychwanegol, naill ai o Ward Seren neu Ward Dewi Sant.

Amgylchedd y ward

Mae'r uned iechyd meddwl yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn uned hunangynhwysol sy'n gyfagos i'r prif adeilad. Mae gan yr uned ei mynedfa a'i derbynfa ei hun, gyda nifer o swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod ar y llawr daear.

Wrth fynd i mewn i'r cyntedd mawr, mae drysau sy'n arwain at nifer o fannau a wardiau, a'r wardiau ar gyfer pobl hŷn – Ward Seren, yr Uned Gofal Estynedig a Ward Dewi Sant – sydd wedi'u lleoli ar y llawr daear.

Roedd diffyg o ran cynnal a chadw gosodiadau a ffitiadau ar y wardiau, a'r gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar draws Ward Seren a'r Uned Gofal Estynedig; roedd y rhain yn peri risg o achosi niwed i gleifion neu aelodau staff.

Roedd yn hynod siomedig, er gwaethaf ein gwahoddiad i adran ystadau'r bwrdd iechyd fynychu ein sesiwn adborth ynglŷn â'n harolygiad, a fyddai wedi ein galluogi i godi'r materion hyn gyda nhw ar unwaith, y cawsom ein hysbysu nad oedd neb ar gael i fynychu.

Roedd nifer sylweddol o reiliau llaw yn y coridorau ar draws y ddwy ward wedi'u difrodi neu wedi colli'r darnau a'r topiau ar eu pennau. O ganlyniad i hyn, roedd ochrau miniog yn agored, a gallent achosi niwed i glaf, ymwelydd, neu aelod o'r staff yn rhwydd.

Byddai hefyd yn anodd glanhau'r darnau agored yn ddigonol, sy'n peri risg bosibl o ran rheoli heintiau.

Dylai'r bwrdd iechyd hefyd ystyried dyluniad y rheiliau llaw; nid oedd y rhai a osodwyd yn rhai heb linyddau. Er bod y rheiliau llaw mewn manau cymunedol a oedd yn cael eu gwyllo'n rheolaidd gan staff, a allai gyfyngu ar y defnydd o'r rheiliau llaw fel pwynt clymu, dylai'r bwrdd iechyd osod rheiliau llaw heb linyddau.

Yn dilyn ein harolygiad, gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd i ofyn am sicrwydd ar unwaith y byddai'r rheiliau llaw yn y coridorau yn cael eu trwsio er mwyn atal eu defnydd posibl fel pwynt clymu. Gwnaeth y bwrdd iechyd gadarnhau bod y gwaith trwsio brys wedi cael ei gwblhau ac y byddai rheiliau heb linyrnau yn cael eu gosod erbyn 31 Mawrth 2017.

Roedd nifer o handlenni drws ar draws y ddwy ward wedi'u difrodi, ac yn cynnwys darnau a oedd yn rhydd neu ar goll. Gallai handlenni rhydd olygu y byddai claf yn colli ei gydbwysedd, ac yna'n cwmpo ac achosi niwed iddo'i hun. Roedd yr handlenni rhydd hefyd yn peri risg bosibl o achosi niwed pe byddai claf yn gallu eu symud i ffwrdd o'r drws.

Roedd metal miniog yn dangos yn y darnau lle nad oedd handlenni, a allai achosi niwed i glaf, ymwelydd, neu aelod o'r staff.

Gwnaethom ofyn eto am sicrwydd ar unwaith gan y bwrdd iechyd y byddai'r holl handlenni drws a oedd wedi torri yn cael eu trwsio neu'u hailosod. Gwnaeth y bwrdd iechyd gadarnhau bod y gwaith trwsio i'r handlenni drws wedi dechrau ac, fel rhan o'r gwelliant a nodwyd mewn perthynas â'r holl ffitiadau heb linyrnau, byddai'r holl handlenni drws yn cael eu hailosod gyda ffitiadau newydd heb linyrnau erbyn 31 Mawrth 2017.

Roedd gan yr Uned Gofal Estynedig ystafelloedd gwely sengl gyda chyfleusterau en suite, tra oedd gan Ward Seren gymysgedd o ystafelloedd gwely sengl gyda chyfleusterau en suite ac ystafelloedd ar ffurf ystafell gysgu. Roedd gan bob ystafell wely sengl gyfleusterau en suite, a oedd yn cynnwys cawod, toiled a sinc. Roedd gan yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd cysgu fannau storio ar gyfer dillad ac eiddo personol. Fodd bynnag, roedd drysau cypyrddau neu ddarnau blaen droriau ar goll o'r dodrefn ym mhob rhan o'r ddwy ward; mae hwn yn effeithio ar urddasrwydd cleifion.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cadarnhau, fel rhan o'r gwaith gwella a nodwyd mewn perthynas â'r holl ffitiadau heb linyrnau, y bydd yr holl gypyrddau a wardrobau yn cael ffitiadau newydd heb linyrnau wedi'u gosod arnynt erbyn 31 Mawrth 2017.

Nodwyd hefyd nad oedd yr arwyddion ar ddrysau'r ystafelloedd gwely na'r ystafelloedd cysgu yn glir. Roedd nifer o labeli adnabod ar bob drws, a oedd yn nodi rhif yr ystafell, cyfeirnod yr adran ystadau, ac enw'r claf. Nid oedd enwau'r cleifion yn glir iawn bob amser, ac roedd rhai ohonynt wedi cael eu hysgrifennu â llaw ar ddarnau bach o labeli gludiog a oedd wedi'u gosod ar y drws. Ni wnaed unrhyw ymdrechion i gynnig arwydd mwy amlwg i gleifion ynghylch pa ystafell wely neu ystafell gysgu a benodwyd ar eu cyfer.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arwyddion ar ddrysau ystafelloedd gwely yn glir ac yn briodol i'r grŵp cleifion er mwyn eu cynorthwyo wrth iddynt geisio dod o hyd i'r ffordd.

Roedd yr ystafell gysgu i ddynion ar Ward Seren ar gyfer hyd at bedwar claf, ac ar adeg ein harolygiad roedd dau o'r gwelyau wedi'u dynodi i gleifion; roedd y ddau wely arall yn wag. Fodd bynnag, roedd y manau gwely gwag yn anniben ac yn flêr; roedd yr ystafell gysgu yn ymddangos mwy fel man storio yn hytrach na man cysgu. Dywedodd y staff fod y manau storio ar y ward yn gyfyngedig a bod eitemau yn y manau gwely gwag gan nad oedd unrhyw le arall i'w cadw ar y pryd.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd cysgu yn cael eu trefnu'n briodol ac nad ydynt yn cael eu defnyddio fel manau storio ychwanegol.

Er bod llenni ar ffenestri'r ystafell gysgu, nid oedd bleindiau. O ganlyniad, roedd maint sylweddol o olau yn dod i mewn i'r ystafell gysgu o hyd pan oedd y llenni ar gau.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd osod bleindiau addas ar ffenestri'r ystafelloedd gwely.

Nodwyd bod ystafell gysgu'r dynion yn oer drwy gydol yr arolygiad, ac roedd yn amlwg bod hyn o ganlyniad i'r ffenestri a oedd ar agor. Er ei bod yn bosibl mai dyma oedd dymuniad y cleifion pan oeddent yn bresennol yn yr ystafell gysgu yn ystod y bore, roedd yr ystafell gysgu yn wag yn ystod y prynhawn gan fod y cleifion yn y manau cymunol. Yn ystod yr amser hwn, gostyngodd tymheredd yr ystafell yn fwy hyd yn oed. Byddai'n gyngor da i'r staff sicrhau nad oedd ystafelloedd cysgu nac ystafelloedd gwely yn mynd yn rhy oer pan nad oedd y cleifion yn eu manau cysgu.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn monitro ystafelloedd cysgu ac ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw at dymheredd priodol.

Nid oedd toiledau na chyfleusterau cawod/bath ar wahân ar gyfer menywod a dynion ar y naill ward. Roedd hefyd yn bryderus nad oedd gan yr holl gyfleusterau cymunedol cloeau a oedd yn gweithio er mwyn cynnal

preifatrwydd cleifion; dyma oedd y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2016 a dywedodd y bwrdd iechyd ei fod wedi rhoi sylw iddo ar ôl hynny. Hefyd, roedd cloeau difrodedig ar nifer o ddrysau'r ystafelloedd gwely ar y ddwy ward.

Nid yw'n dderbyniol bod problemau'n parhau o ran y cloeau ar y wardiau, er gwaethaf y cadarnhad gan y bwrdd iechyd yn dilyn ein harolygiad blaenorol y byddai'r rhain yn cael eu trwsio. Nodwyd hefyd bod y wardiau wedi rhoi gwybod i adran ystadau'r bwrdd iechyd nad oedd y problemau hyn wedi cael eu datrys.

Gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith gan y bwrdd iechyd y byddai'r gwaith o drwsio neu ailosod yr holl gloeau sydd wedi torri yn cael ei flaenoriaethu. Gwnaeth y bwrdd iechyd gadarnhau bod cloeau newydd wedi cael eu harchebu ac y byddant yn cael eu gosod erbyn 10 Chwefror 2017.

Roedd problemau parhaus gyda'r baddonau ar y ddwy ward, ac, er gwaethaf yr ymdrechion i gywiro'r diffygion, roeddent yn dal i ollwng dŵr o bryd i'w gilydd. Mae'n amlwg bod nad yw'r gwaith trwsio a wneir yn ddigonol.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddod o hyd i ateb parhaol o ran y cyfleusterau ymolchi annigonol.

Nid oedd unrhyw gyfleusterau priodol ar gyfer storio slingiau'r teclynnau codi o'r bath o fewn yr ystafelloedd ymolchi. Gwelsom fod y slingiau ar Ward Seren wedi cael eu gadael yn anhrefnus mewn cynhwysydd mawr wrth ochr yr offer codi.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu man storio priodol ar gyfer slingiau'r teclynnau codi o'r bath.

Roedd y waliau mewnol wedi'u difrodi ym mhob rhan o'r ddwy ward, gyda darnau o waith plastr a oedd ar goll. Roedd hyn yn cynnwys manau a nodwyd gennym yn ystod ein harolygiad blaenorol, megis ystafell fwyta Ward Seren. Byddai'r darnau agored hefyd yn anodd eu glanhau yn briodol, sy'n peri risg bosibl o ran rheoli heintiau.

Roedd rhai o'r darnau agored yn garw hefyd, a allai arwain at anaf i glaf, ymwelydd, neu aelod o'r staff. Hefyd, roedd risg bosibl y byddai claf, oherwydd ei gyflwr meddyliol, yn llyncu unrhyw ddarnau rhydd yn ddamweiniol neu fel cais bwriadol i achosi niwed i'w hun.

Gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith gan y bwrdd iechyd y byddai'r holl ddarnau difrodedig o'r wal fewnol a'r gwaith plastr yn cael eu trwsio. Mae'r

bwrdd iechyd wedi cadarnhau ei fod wedi cychwyn y gwaith trwsio ac addurno ar y waliau. Mae rhai o'r darnau agored wedi cael eu trwsio a/neu'n cael eu diogelu gan gardiau cornel, ond mae angen gosod rhagor o gardiau er mwyn dod i ben â'r gwaith. Archebwyd y rhain a byddant yn cael eu gosod erbyn 10 Chwefror 2017.

Roedd manau cymunol y gallai'r cleifion eu defnyddio yn ystod y dydd a gyda'r nos, gan gynnwys lolfeydd, ystafelloedd teledu, ac ystafelloedd bwyta. Roedd y wardiau iechyd meddwl pobl hŷn yn cynnwys ystafell ysmygu a leolir ar Ward Dewi Sant y gallai'r cleifion ei defnyddio pe byddent yn dymuno.

Roedd clociau a oedd yn dangos yr amser mewn manau cymunol y wardiau; fodd bynnag, cawsom ein hysbysu bod y wardiau wedi derbyn clociau sy'n addas i gleifion â dementia, a oedd yn aros i gael eu gosod ar y waliau. Gwnaethom nodi nad oedd y clociau yn y manau cymunol bob amser wedi'u lleoli fel y gellid eu gweld yn hawdd, felly dylid ystyried lleoli'r clociau newydd mewn man gwahanol pan fyddant yn cael eu gosod.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd leoli'r clociau sy'n addas i gleifion â dementia mewn manau priodol yn y manau cymunol.

Gwnaethom nodi gwelliant o ran yr wybodaeth i gleifion ac i ymwelwyr a oedd yn cael ei harddangos ar y wardiau. Fodd bynnag, roedd y wardiau yn disgwyl i'r adran ystadau osod byrddau gwybodaeth newydd. Roedd yr wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar y bwrdd gwybodaeth ym mynedfa i ymwelwyr Ward Seren yn anniben ac yn aflêr; nid oedd yn rhoi argraff dda o'r ward wrth gyrraedd, ac mae angen gwella hyn.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y byrddau gwybodaeth newydd i gleifion/ymwelwyr yn cael eu gosod.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod wybodaeth yn cael ei dangos yn daclus ar y byrddau gwybodaeth.

Fel yn ein harolygiad blaenorol, mae'r staff domestig yn gweithio ar y wardiau o 7am hyd 1pm, ac nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar ôl hynny. Byddai angen i staff nyrsio wneud tasgau domestig ychwanegol yn ôl y gofyn yn ystod oriau y tu allan i 7am hyd 1pm, a byddai hynny'n lleihau'r amser sydd ganddynt i gleifion.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o fewnbwn gan staff domestig i Ward Seren i beidio ag effeithio ar y ddarpariaeth gofal nyrsio.

Er bod gan y wardiau fynediad at ardal yn yr awyr agored, a dywedodd y staff fod yr ardal yn cael ei defnyddio o bryd i'w gilydd, roedd yn anodd hwyluso mynediad at y ardal yn yr awyr agored o ganlyniad i anghenion symudedd y grŵp cleifion, diffyg mynediad at a gwaith cynnal a chadw ar yr ardaloedd y tu allan, a lefelau staffio. Mynegodd staff eu hawydd i ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau lleol wrth ddatblygu'r ardal hon ymhellach, ac argymhellir yn gryf bod y bwrdd iechyd yn cefnogi staff y wardiau wrth fynd ar drywydd y datblygiadau hyn.

Diogelwch

Roedd yn gadarnhaol nodi hefyd bod nifer yr aelodau staff wedi cynyddu ers ein harolygiad diwethaf ym mis Gorffennaf, gydag aelod o staff ychwanegol ar Ward Seren ac yn yr Uned Gofal Estynedig. Fel rhan o'r cynllun peilot, bydd yr holl gleifion a dderbynnir yn mynd i'r Uned Gofal Estynedig am o leiaf 72 awr cyn symud i ward arall. Fe'n hysbyswyd y bydd y bwrdd iechyd yn monitro'r holl ofynion staffio ar gyfer y wardiau iechyd meddwl pobl hŷn yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'n hanfodol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau staffio diogel yn cael eu cynnal ar draws yr holl wardiau.

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer yr aelodau staff, roedd yn amlwg drwy ein harsylwadau bod yr holl staff ar draws y wardiau pobl hŷn yn brysur iawn. Fodd bynnag, roedd y wardiau yn teimlo'n dawelach ac roedd yn ymddangos bod y gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd fwy strwythurol a threfnus nag yn ystod ein harolygiad diwethaf.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, ac roedd gan y staff larymau pe bai angen galw am gymorth. Fodd bynnag, nid oedd system larwm galw am nyrs yn ystafelloedd gwely'r cleifion nac yn y manau cleifion.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i ddarparu system galw am nyrs i gleifion.

Roedd gan Ward Seren ystafell feddal a ddefnyddiwyd i ddarparu gofal i gleifion a oedd yn peri risg o achosi niwed i'w hunain ar wynebau caled. Fodd bynnag, nid oedd y bwrdd iechyd yn gallu darparu polisi ynghylch sut i ddefnyddio'r ystafell hon er mwyn arwain staff.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu polisi i arwain staff ynghylch pwrpas yr ystafell feddal a sut i'w defnyddio.

Roeddem ni hefyd yn bryderus o ran ei lleoliad mewn rhan brysur o'r ward rhwng yr ystafelloedd cymunol i gleifion, a allai effeithio ar breifatrwydd ac urddas claf sy'n derbyn gofal yn yr ystafell hon gan y gellid clywed synau o'r tu allan i'r ystafell yn y manau cymunol. Byddai'n fuddiol pe byddai modd i'r ystafell feddal gael ei lleoli mewn man tawelach ar Ward Seren neu yn yr Uned Gofal Estynedig.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ail-leoli'r ystafell feddal.

Roedd yr asesiad risg ynghylch pwyntiau clymu ar Ward Seren a roddwyd i ni wedi mynd heibio'r dyddiad adolygu gan wyth mis. Mae'n hanfodol bod asesiadau pwyntiau clymu yn cael eu cwblhau erbyn y dyddiadau adolygu er budd diogelwch cleifion.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg pwyntiau clymu yn cael eu cadw'n gyfredol.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan gleifion ar Ward Seren naill ai ystafell wely ei hun neu ystafell gysgu gyda phedwar gwely, ac roedd gan y cleifion yn yr Uned Gofal Estynedig eu hystafelloedd gwely eu hunain. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd agweddau o'r gwaith cynnal a chadw a oedd yn effeithio ar urddasrwydd cleifion.

Roedd gwelyau cleifion wedi'u gwahanu gan lenni yn yr ystafelloedd cysgu; mae'r rhain ond yn cynnig y math mwyaf sylfaenol o breifatrwydd.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd droi'r ystafelloedd cysgu yn ystafelloedd sengl.

Er bod teulu a ffrindiau'n gallu dod i weld eu perthnasau, nid oedd unrhyw ystafell wedi'i neilltuo ar gyfer ymwelwyr ar Ward Seren nac yn yr Uned Gofal Estynedig. Fe'n hysbyswyd gan y staff a pherthnasau cleifion bod ymweliadau ond yn gallu digwydd wrth ymyl gwelyau ar Ward Seren. Cawsom ein hysbysu bod hwn er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Er bod hyn yn gallu bod yn addas i gleifion sydd ag ystafell

wely unigol, nid yw hyn yn wir ar gyfer cleifion sy'n aros mewn ystafelloedd cysgu.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau preifat priodol ar gael i gleifion dderbyn ymwelwyr.

Roedd gan y swyddfa ar bob ward *fwrdd cipolwg ar statws cleifion* a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Roedd cyfleusterau ar gael yn y ddwy ward i guddio'r wybodaeth gyfrinachol pan nad oedd y byrddau'n cael eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom ar nifer o achlysuron nad oedd rhai o'r aelodau staff yn gorchuddio'r byrddau ar ôl eu defnyddio ar Ward Seren. Roedd yn bosibl gweld yr wybodaeth gyfrinachol ar y ward oherwydd hyn pan oedd drws y swyddfa yn agored.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff ynghylch yr angen i sicrhau bod y bwrdd cipolwg ar statws cleifion yn swyddfeydd y wardiau yn cael ei orchuddio pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Nid oedd unrhyw gyfleusterau golchi dillad ar gael ar y wardiau iechyd meddwl pobl hŷn. Roedd y cleifion yn dibynnu ar eu teuluoedd a'u ffrindiau, neu'n gorfod talu am wasanaeth allanol.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd gynnig gwasanaeth golchi dillad ar wardiau iechyd meddwl pobl hŷn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Yn ystod ein cyfnod ar y wardiau iechyd meddwl pobl hŷn, gwnaethom arsylwi'r staff yn rhyngweithio â'r cleifion gydag urddasrwydd i gefnogi cleifion â'u gweithgareddau beunyddiol, megis gwisgo dillad, hylendid personol, bwyta, ac ati. Roedd yn gadarnhaol nodi bod rhai gweithgareddau strwythuredig yn cael eu cynnal gyda'r cleifion gan nad oedd digon o hyn yn ystod ein harolygiad diwethaf. Gwelsom gynnydd o ran mewnbwn therapi galwedigaethol ar Ward Seren hefyd.

Ystafelloedd clinigol a rheoli meddyginiaeth

Roedd gan staff ar bob ward fynediad at Bolisi Rheoli Meddyginiaethau'r bwrdd iechyd trwy gyfrwng mewnrwyd y bwrdd iechyd.

Gwnaeth ein harolygiad nodi arferion rheoli meddyginiaeth gwael ar Ward Seren ac yn yr Uned Gofal Estynedig hefyd. Roedd oergelloedd meddyginiaeth yn y ddwy ystafell glinigol. Roedd Ward Seren yn cynnwys un oergell meddyginiaeth ac roedd yr Uned Gofal Estynedig yn cynnwys dwy oergell meddyginiaeth. Gwnaethom nodi hepgoriadau o ran gwiriadau tymheredd dyddiol yr oergelloedd ar y ddwy ward, a oedd yn cynnwys bwlch un wythnos ar un o oergelloedd yr Uned Gofal Estynedig.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn monitro ac yn cofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth.

Roedd gan un oergell yn yr Uned Gofal Estynedig allwedd yn ei chlo; roedd yr oergell arall yn yr Uned Gofal Estynedig a'r oergell ar Ward Seren heb eu cloi. Golyga hyn nad oedd yr oergelloedd meddyginiaeth na'u cynnwys wedi'u cloi'n ddiogel; gallai hyn arwain at feddyginiaethau'n cael eu tynnu oddi yno heb eu cyfrif.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl feddyginiaethau yn cael eu cadw'n ddiogel mewn ffordd briodol.

Roedd modd o osod trolïau meddyginiaeth yn sownd i'r wal yn y ddwy ystafell glinigol; fodd bynnag, nid oedd y naill na'r llall o'r trolïau wedi'u gosod yn sownd yn ystod ein harolygiad.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trolïau meddyginiaeth yn cael eu gosod yn sownd o fewn yr ystafelloedd clinigol.

Roedd yr holl gypyrddau meddyginiaeth wedi eu cloi'n briodol er mwyn storio meddyginiaethau'n ddiogel, gan gynnwys y cypyrddau ar gyfer cyffuriau a reolir.

Bwyd a maetheg

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, gwnaethom godi nifer o bryderon ynghylch y ddarpariaeth bwyd ar Ward Seren. Roedd yn gadarnhaol nodi bod nifer o'n pryderon wedi derbyn sylw a bod hyn wedi arwain at ddarpariaeth well i gleifion.

Roedd y system arlwygo ddiwygiedig yn golygu bod cleifion yn dal i allu cael brecwast os oeddent yn deffro'r ar ôl i'r troli brecwast fod o amgylch y ward.

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, nid oedd hyn yn wir, a oedd yn golygu bod cleifion yn cael eu deffro'n gynnar.

Roedd gwelliant hefyd o ran y cyflenwad o fyrbrydau oedd ar gael i gleifion, ac roedd yn amlwg bod ffrwythau bellach yn cael eu cynnig fel mater o drefn i'r wardiau.

Roedd y cleifion yn cael diodydd yn rheolaidd ac roedd digon o gwpanau a gwydrau ar gael ar y wardiau.

Fel y nodwyd yn yr arolygiad blaenorol, roedd y byrddau bwydlenni ar y wardiau'n wag. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi ers ein harolygiad diwethaf bod y tîm therapi galwedigaethol wedi datblygu bwydlenni gyda lluniau ar gyfer y cleifion, a defnyddiwyd y rhain i gynorthwyo'r cleifion wrth iddynt ddewis eu prydau bwyd.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y tîm therapi galwedigaethol yn cymryd rhan weithredol wrth sicrhau bod cleifion yn dewis eu prydau bwyd ac yn eu derbyn yn ystod amserau bwyd. Fodd bynnag, roedd y tîm therapi galwedigaethol ond yn gweithio ar y ward bedwar diwrnod yr wythnos. Nid oedd yn amlwg o ran y tri diwrnod arall sut y gallai'r tîm nyrsio ddarparu'r gofal dwys a ddarperir gan y tîm therapi galwedigaethol ar ei ben ei hun.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digonedd o adnoddau ar gael i gefnogi staff y ward wrth gynnig dewisiadau prydau bwyd i gleifion, a darpariaeth ar gyfer yr adegau pan nad yw'r tîm therapi galwedigaethol yn bresennol.

Gan fod rhai o'r cleifion yn dal i gysgu erbyn yr adeg pan oedd angen cyflwyno eu dewisiadau bwyd i'r adran arlwyyo, sef 9.15am, gwnaethom arsylwi ar aelodau staff yn trefnu bwyd i'r cleifion heb eu gofyn ymlaen llaw. Gwnaethom nodi nad oedd yr aelodau staff yn ystyried hoffterau nac anghenion deietegol pob claf pan oeddent yn dewis ar eu rhan nhw. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe byddai cleifion yn gallu dewis eu bwyd eu hunain.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i sicrhau bod cleifion yn gallu gwneud eu dewisiadau eu hunain o ran prydau bwyd.

Gwelsom aelodau staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u prydau bwyd pan oedd angen. Fodd bynnag, nid oedd cyllyll a ffyrc a llestri a addaswyd yn arbennig ar gael yn rhwydd o hyd ar y wardiau, a gallai rhai cleifion elwa arnynt.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyllyll a ffyrc a llestri a addaswyd yn arbennig ar gael yn rhwydd.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant staff ac roedd yn amlwg eu bod yn parhau i wella ers ein harolygiad diwethaf. Roedd yr ystadegau hyfforddiant bellach yn gyfredol ar y system cofnodion hyfforddiant ganolog fel y gallai rheolwr y ward fonitro cyfraddau cwblhau ar gyfer ei staff.

Cadarnhaol oedd nodi bod y nyrsys cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Cynllunio Gofal a Thriniaeth, a oedd wedi cael ei nodi o fod yn brin gan y bwrdd iechyd.

Roedd meysydd o hyfforddiant gorfodol yr oedd dal angen i'r rhan fwyaf o'r staff eu cwblhau. Roedd yr uwch reolwyr y buom yn siarad â nhw yn awyddus i wella nifer yr aelodau staff a oedd yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi a bod ganddynt ddigon o amser i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd nodi'n glir sut a phryd y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn yr arolygiad, gan gynnwys amserlenni.

Bydd cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar gyfer iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl:

Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Ysbyty:

Ysbyty Brenhinol Morgannwg – Ward Seren a'r Uned Gofal Estynedig

Dyddiad yr Arolygiad:

9 Ionawr 2017

Angen Sicrwydd Ar Unwaith	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rheiliau llaw yn y coridorau yn gyflawn ac yn ddiogel i'w defnyddio gan gleifion, a rhaid iddo leihau'r posibilrwydd y cânt eu defnyddio fel pwynt clymu.	<p>Mae'r rheiliau llaw presennol wedi cael eu trwsio'n llawn.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi datblygu cynllun i ailosod yr holl reiliau llaw o fewn yr Uned Gofal Estynedig ac ar Ward Seren i gydymffurfio â ffitiadau heb linyrnau.</p>	<p>Adran Ystadau</p> <p>Adran Ystadau / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>31 Mawrth 2017</p>

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl handlenni drws sydd wedi torri yn cael eu trwsio neu'u hailosod.	Mae'r rhan fwyaf o handlenni drws wedi cael eu trwsio. Fel rhan o'r gwella a nodwyd mewn perthynas â ffitiadau heb linyddau, bydd yr holl handlenni drws yn cael eu hailosod gyda ffitiadau newydd heb linyddau.	Adran Ystadau / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	31 Mawrth 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl handlenni drws sydd wedi torri yn cael eu trwsio neu'u hailosod.	Bydd cloeau newydd yn cael eu harchebu a'u gosod unwaith y cânt eu derbyn.	Adran Ystadau	Cwblhawyd 1 Chwefror 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddarnau difrodedig o'r wal fewnol a'r gwaith plastr yn cael eu trwsio.	Mae'r bwrdd iechyd wedi dechrau gwaith trwsio ac addurno ar y waliau. Bydd y darnau agored yn cael eu trwsio/eu diogelu gan gardiau cornel. Mae nifer o gardiau wedi cael eu gosod ond bydd angen gardiau ychwanegol. Mae'r rhain wedi cael eu harchebu a byddant yn cael eu gosod pan fyddant yn cyrraedd.	Adran Ystadau	31 Mawrth 2017 Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddarnau blaen o'r droriau a'r drwsau sydd ar goll yn cael eu hailosod.	Fel rhan o'r gwella a nodwyd mewn perthynas â'r holl ffitiadau heb linyddau, bydd yr holl gypyrddau a wardrobau yn cael eu hailosod gyda ffitiadau newydd heb linyddau.	Adran Ystadau	31 Mawrth 2017

Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu dogfen strategol o'r cynllun peilot a gwerthusiad arfaethedig.	Ysgrifennwyd y cynnig ac fe'i rhannwyd gyda'r tîm.	Uwch Nyrs	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafelloedd gwely ac ystafelloedd cysgu yn cael eu trefnu'n briodol ac nad ydynt yn cael eu defnyddio fel mannau ychwanegol ar gyfer storio.	Mae cynlluniau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i droi'r man ysmegu dan do yn ystafell storio ar gyfer yr holl offer codi a chario a theclynnau codi, gan osod cysgodfa ysmegu yn ei le. Mae cais cyfalaf wedi cael ei gyflwyno.	Adran Ystadau	31 Mawrth 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arwyddion ar ddrysau ystafelloedd gwely yn glir ac yn briodol i'r grŵp cleifion er mwyn eu cynorthwyo wrth iddynt geisio dod o hyd i'r ffordd.	Bydd yr holl ystafelloedd gwely i gleifion yn cynnwys arwyddion sy'n addas i gleifion â dementia ar ddrysau'r ystafelloedd gwely.	Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd osod bleindiau priodol ar ffenestri'r ystafelloedd gwely.	Bydd hyn wedi'i gwblhau ar ôl gosod wardrobau heb linyddau ac addurno'r ystafelloedd.	Rheolwr y Ward / Adran Ystadau	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn monitro ystafelloedd cysgu ac ystafelloedd	Mae thermomedrau bellach wedi'u harchebu gan storffeydd canolog a	Rheolwr y Ward	31 Mawrth 2017

gwely'r cleifion i sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar dymheredd priodol.	byddant yn cael eu gosod ym mhob ystafell wely i ganiatáu i'r staff gofnodi tymheredd yr ystafell yn ddyddiol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi drwy'r calendr archwilio.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd ddod o hyd i ateb parhaol o ran cyfleusterau ymolchi annigonol.	Mae cais cyfalaf wedi cael ei gyflwyno i adolygu dau o'r baddonau ar Ward Seren ac yn yr Uned Gofal Estynedig.	Uwch Reolwr Busnes / Rheolwr y Ward	31 Mawrth 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu man storio priodol ar gyfer slingiau'r teclynnau codi o'r bath.	Mae'n rhaid i'r teclyn codi o'r bath gael ei leoli yn yr ystafell ymolchi uwchben y baddonau. Mae angen atgoffa'r staff o hyn a rhoi gwybod iddynt na all teclynnau codi gael eu gadael yng nghanol yr ystafell ymolchi. Bydd slingiau yn cael eu storio yn yr ystafell storio newydd mewn ffordd addas.	Adran Ystadau / Uwch Reolwr Busnes	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd leoli'r clociau sy'n addas i gleifion â dementia mewn mannau priodol yn y mannau cymunol.	Mae rheolwr y ward wedi trefnu'r gwaith gyda'r Adran Ystadau.	Adran Ystadau / Rheolwr y Ward	28 Chwefror 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod byrddau gwybodaeth newydd i gleifion/ymwelwyr yn cael eu gosod.	Mae hyn wedi cael ei drefnu gyda'r Adran Ystadau ac maen nhw wedi trefnu i'w gwblhau'r wythnos hon.	Rheolwr yr Adran Ystadau	Cwblhawyd

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei dangos yn daclus ar y byrddau gwybodaeth.	Rheolwr y ward i sicrhau bod byrddau gwybodaeth yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.	Rheolwr y Ward	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o fewnbwn gan staff domestig i Ward Seren i beidio ag effeithio ar y ddarpariaeth gofal nyrsio.	Uwch nyrs i drafod â'r goruchwylydd domestig.	Uwch Nyrs	Cwblhawyd
Mae angen i'r bwrdd iechyd gyflwyno polisi i arwain staff ynglŷn â diben yr ystafell feddal a sut i'w defnyddio.	Canllawiau drafft wedi'u cwblhau. Byddant yn mynd i gyfarfod llywodraethu clinigol er mwyn eu cadarnhau ym mis Chwefror 2017.	Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs	28 Chwefror 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl asesiadau risg pwyntiau clymu yn gyfredol.	Archwiliad gwrth-glymiadau wedi'i gwblhau ar gyfer Ward Seren a'r Uned Gofal Estynedig.	Nyrs Staff / Rheolwr y Ward	Cwblhawyd 2 Chwefror 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau preifat priodol ar gael i'r cleifion dderbyn ymwelwyr.	Mae'r gofod sydd ar gael ar y ward yn gyfyngedig o ganlyniad i'r amgylchedd. O ganlyniad i hyn, mae'n well bod teuluoedd yn ymweld â chleifion yn eu hystafelloedd gwely er mwyn cynnal urddasrwydd y cleifion eraill ar y ward. Os yw'n briodol, gall teuluoedd ddefnyddio cyfleusterau ehangach yr	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

	ysbyty megis y ffreutur a'r siop goffi.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff ynglŷn â'r angen i sicrhau bod y <i>bwrdd cipolwg ar statws cleifion</i> yn swyddfeydd y wardiau yn cael ei orchuddio pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.	Rheolwr y ward i atgyfnerthu bod yn rhaid i fyrddau gwyn sy'n cynnwys gwybodaeth am gleifion gael eu gorchuddio pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Caiff hyn ei drafod hefyd yn ystod cyfarfodydd tîm.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Dylai'r bwrdd iechyd gynnig gwasanaeth golchi dillad ar wardiau iechyd meddwl pobl hŷn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.	Mae cais cyfalaf wedi cael ei gyflwyno ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i addasu un o'r toiledau yn ystafell golchi dillad er mwyn caniatáu i'r cyfleusterau peiriant golchi a sychwr dillad fod ar gael ar y ward.	Uwch Nyrs / Uwch Reolwr	31 Mawrth 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn monitro ac yn cofnodi tymreddau oergelloedd meddyginiaeth.	Mae tymheredd yr holl oergelloedd yn cael ei wirio'n ddyddiol a'i gofnodi mewn llyfr a ddarparwyd.	Rheolwr y Ward / Dirprwy Reolwyr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl feddyginiaethau yn cael eu cadw'n ddiogel mewn ffordd briodol.	Mae'r holl staff wedi derbyn copi o bolisi meddyginiaeth y bwrdd iechyd, a byddwn yn trafod hyn yn ystod diwrnod hyfforddi'r tîm i wneud yn siŵr bod yr holl staff yn dilyn y weithdrefn.	Rheolwr y Ward / Dirprwy Reolwr y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trolïau meddyginiaeth yn cael eu gosod yn	Mae'r holl drolïau meddyginiaeth bellach yn cael eu storio mewn ystafell	Uwch Nyrs	Cwblhawyd

sownd o fewn yr ystafelloedd clinigol.	glinigol dan glo ac yn cael eu gosod yn sownd i'r wal.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digonedd o adnoddau ar gael i gefnogi staff y ward wrth gynnig dewisiadau bwyd i gleifion a darpariaeth ar gyfer yr adegau pan nad yw'r tîm therapi galwedigaethol yn bresennol.	Mae proses newydd bellach wedi cael ei chynllunio gyda therapi galwedigaethol a rheolwr y ward i sicrhau bod y mater hwn yn cael ei ddatrys pan nad yw'r tîm therapi galwedigaethol ar gael.	Therapi Galwedigaethol / Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i sicrhau bod cleifion yn gallu gwneud eu dewisiadau eu hunain o ran prydau bwyd.	Mae hyn wedi cael ei ddatrys gan ddefnyddio'r broses uchod.	Therapi Galwedigaethol / Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyllyll a ffyrc a llestri a addaswyd yn arbennig ar gael.	Mae'r offer hyn bellach wedi cael eu harchebu.	Rheolwr y Ward / Therapi Galwedigaethol	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi a bod digon o amser ar gael iddynt gwblhau eu hyfforddiant gorfodol.	Mae'r uwch nyrs a rheolwr y ward bellach wedi trefnu diwrnod hyfforddiant unwaith y mis i ganiatáu i'r staff gael digon o amser i gwblhau hyfforddiant gorfodol gan ddefnyddio eu sifft ad-dalu.	Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Gwelliant a Awgrymir	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu system galw nyrsys ar gyfer y cleifion.	Oherwydd bod gan y cleifion ar y ward nam ar eu gweithrediad gwybyddol, byddai system galw am gymorth nyrs yn dod â manteision cyfyngedig gan na fyddai'r rhan fwyaf o'r cleifion yn gallu deall y system, a gallai beri risg clymiad i gleifion hefyd.	Uwch Nyrs / Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ail-leoli'r ystafell feddal.	Oherwydd yr amgylchedd a'r lefel uchel o arsylwi sy'n ofynnol ar gyfer cleifion sy'n defnyddio'r ystafell feddal, mae angen lleoli'r ystafell feddal mewn ardal ganolog i ganiatáu mynediad rhwydd i'r staff a'r gallu i arsylwi'n effeithiol.	Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Dylai'r bwrdd iechyd droi'r ystafelloedd cysgu yn ystafelloedd gwely sengl.	Oherwydd y lefel uchel o arsylwi sy'n ofynnol ar gyfer y grŵp cleifion hwn a'r lle cyfyngedig sydd ar gael, ni fyddai hyn yn addas i'r holl gleifion. Bydd rheolwr y ward a'r uwch nyrs yn trafod sut y gellir defnyddio rhanwyr ystafell.	Uwch Nyrs a Rheolwr y Ward	31 Mawrth 2017

Cynrychiolydd y bwrdd iechyd:

Enw (llythrennau bras):.....

Teitl:

Dyddiad:.....